OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2071 (Cy.143)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *24 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(2) a (4), 101(**1**) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**2**) fel y'u hestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**3**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig ac nid ydynt yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau grant sy'n cael eu gwneud cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

### Diwygiadau

**2.**—(1) Mae'r ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998(**4**)) yn cael ei diwygio yn unol â thestun Cymraeg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae'r ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996(**5**) yn cael ei diwygio i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru yn unol â thestun Saesneg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) Gweler y diffiniad o "prescribed" yn adran 101.
(**2**) 1996 p.53; cafodd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) 1993 p.38.
(**4**) O.S. 1998/1113, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/2316, 1999/3470 (Cy. 56) a 2000/1735 (Cy. 119).
(**5**) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, 1997/809, 1999/1607, 1999/3470 (Cy.56) a 2000/1735 (Cy. 119).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis Thomas*

24 Mai 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p. 38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

### DIWYGIADAU I'R FFURFLEN O DAN Y TEITL "CEISIADAU PERCHEN-FEDDIANNYDD A THENANT AM GRANTIAU ADNEWYDDU TAI"

**1.** Yng nghwestiwn 3.31, yn y lle priodol, mewnosodwch—

"Taliad o gronfeydd mynediad (myfyrwyr) £

£

**Nodyn 86D**

*(Rhowch fanylion yr hyn y mae'r taliadau wedi'u bwriadu ar ei gyfer, e.e. gwres, prydau)".*

**2.** Yng nghwestiwn 3.34, yn lle "**a 90B**", rhowch "**, 90B a 90C**".

**3.** Ar ôl cwestiwn 3.34, mewnosodwch—

"**3.34A** Rhowch fanylion unrhyw daliad a wnaed i chi neu i'ch partner ar 1 Chwefror 2001 neu ar unrhyw adeg wedyn yn ymwneud â charchariad neu gaethiwed gan y Japaneaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. **Nodyn 90D"**

**4.** Yng nghwestiwn 3.38, mewnosodwch—

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Mae'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparydd gofal plant a gymeradwywyd gan gorff a achredwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; | – | ☐ |

**5.** Yn nodyn 59, ar ôl y geiriau "at ddibenion budd-dâl plant", mewnosodwch ", neu sydd yng ngofal awdurdod lleol ac sydd wedi'i leoli gyda chi gan yr awdurdod".

**6.** Yn nodyn 85, ar ôl "(darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr)", mewnosodwch—

";

— grant ar gyfer prydau ysgol i blant dibynnol, neu ar gyfer prydau i blant dibynnol 3 neu 4 oed, a dalwyd yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**7**)

**7.** Ar ôl nodyn 86C, mewnosodwch—

"**86D.** Rhaid i chi gynnwys unrhyw daliad o gronfeydd mynediad a fwriedir i'ch galluogi chi fel myfyriwr i dalu costau byw cyffredin - cost bwyd, tanwydd yr aelwyd, rhent, dillad, ac esgidiau - taliadau dwr neu'r Dreth Gyngor. Anwybyddir taliadau cronfeydd mynediad at y dibenion hyn hyd at £20 yr wythnos, ond fe ddylent gael eu cynnwys beth bynnag. Nid oes angen i chi gynnwys unrhyw daliadau o gronfeydd mynediad a roddwyd at ddibenion eraill.".

**8.** Ar ôl nodyn 90B, mewnosodwch—

"**90C.** Peidiwch â chynnwys—

(**7**) 1998 p.30.

— unrhyw gyfandaliad lwfans cynhaliaeth sy'n daladwy mewn perthynas â chymryd rhan mewn rhaglen parth cyflogi;

— unrhyw daliad mewn cysylltiad â chynllun i leihau tan-feddiannaeth, a wnaed o dan reoliad 11 o Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau i Leihau Tan-feddiannaeth) 2000(**8**).

**90D.** Os oes taliad ex gratia o £10,000 wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Chwefror 2001 neu wedyn oherwydd bod (a) chi, (b) eich partner, (c) priod i chi sydd wedi marw, neu (ch) priod i'ch partner sydd wedi marw, wedi'u carcharu neu wedi'u caethiwo gan y Japaneaid yn yr Ail Ryfel Byd, caiff y swm hwnnw ei anwybyddu fel cyfalaf."(**9**).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau..)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffurflenni (dwyieithog) sydd i'w defnyddio gan berchen-feddianwyr a thenantiaid wrth wneud cais am grantiau adnewyddu tai o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Mae'r ffurflen Gymraeg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998 (OS 1998/1113 fel y'i diwygiwyd).

Mae'r ffurflen Saesneg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996 (OS 1996/2891 fel y'i diwygiwyd).

Mae'r diwygiadau yn dilyn y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2073) (Cy.145) i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (O.S. 1996/2890).

(**8**) Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau i Leihau Tan-feddiannaeth) 2000, O.S. 2000/637.
(**9**) Rheoliadau Diwygio Nawdd Cymdeithasol (Anwybyddu Cyfalaf) 2001, O.S. 2001/22.